

Ceisiadau'n agored ar gyfer LeadHerShip 2020

Oes gennych chi ddiddordeb yn y ffordd y gwneir penderfyniadau gwleidyddol yng Nghymru?

Dyma gyfle i chi gael blas ar weithio fel Aelod Cynulliad gyda'n cyfle cysgodi unigryw

Chwarae Teg yw'r brif elusen Cydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru, sy'n gweithio er mwyn helpu menywod i gyflawni a ffynnu, a sicrhau bod llais menywod yn cael ei gynrychioli mewn bywyd cyhoeddus.

Gwnewch gais nawr am eich cyfle chi i gysgodi Aelod Cynulliad Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Dydd Mawrth 17 Mawrth, 2020
Noddwyd gan Suzy Davies AC

Mae Chwarae Teg yn cynnig cyfle i fenywod ifanc ledled Cymru gysgodi Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gallech chi fod yn rhan o grŵp o fenywod ifanc o bob cwr o Gymru sy'n cael y profiad o dreulio amser yng nghwmni modelau rôl ysbrydoledig ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Eleni, mae ein Rhaglen LeadHerShip yn ôl, rhaglen sy'n rhoi cipolwg unigryw i fenywod rhwng 16 a 22 oed ledled Cymru ar waith bob dydd Aelod Cynulliad. Bydd **LeadHerShip** yn dwyn ynghyd fenywod ifanc o bob cwr o Gymru i ddysgu mwy am y ffordd y gwneir penderfyniadau yng Nghymru. Byddwch yn treulio amser gydag Aelod Cynulliad, yn dysgu am y ffordd mae'r Cynulliad yn gweithio ac yn gweld sut brofiad byddai cael gyrfa gwleidyddol.

"Mae LeadHerShip wedi fy ysbrydoli i godi fy llais pan mae gen i ryw beth i'w ddweud"

"Hoffwn wneud yn siŵr bod yna sawl menyw amlwg yn y byd gwleidyddol fel y gall menywod eraill weld ei bod yn bosibl iddyn nhw wneud yr un fath."

Dyw menywod ddim yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o hyd yn y byd gwleidyddol ac yn y byd cyhoeddus. Mae'r penderfyniadau a wneir yn y Cynulliad yn effeithio ar bob rhan o'n bywydau ac mae'n hanfodol bod llais menywod yn cael ei glywed yn y dadleuon hyn er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn effeithio ar bawb yn deg. Rydyn ni am feithrin dealltwriaeth menywod ifanc o wleidyddiaeth a'u cyfraniad ato, a rhoi'r hyder iddynt godi eu llais am y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

"Mae'r diwrnod wedi fy ysbrydoli i ddilyn fy mreuddwydion a chael digon o hyder i'w dilyn. A BYTH i deimlo'n llai pwysig oherwydd fy rhywedd"

Yn dilyn llwyddiant ysgubol digwyddiad y llynedd, rydyn ni'n ôl yn y Senedd **Dydd Mawrth 17 Mawrth** gyda diwrnod llawn gweithgareddau i'ch ysbrydoli i ystyried gyrfa wleidyddol yn y dyfodol.

Gwnewch gais nawr am eich cyfle i gymryd rhan.

Sut i gymryd rhan:

Mae'r rhaglen hon yn agored i bob menyw o gefndiroedd a chymunedau amrywiol o bob cwr o Gymru. Rydyn ni'n cydnabod nad yw cynrychiolwyr etholedig ar hyn o bryd yn amrywiol nac yn gynrychioliadol iawn o'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, felly rydyn ni am sicrhau bod menywod ifanc sy'n adnabod eu hunain yn LGBTQ+, yn fenywod du ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, yn fenywod anabl ac unrhyw grwpiau o fenywod sy'n teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol, yn cael eu hannog i wneud cais.

Mae'r broses ymgeisio bydd yn cau **Dydd Gwener 31ain Ionawr**. Er mwyn cymryd rhan, mae angen i chi fod rhwng 16 a 22 oed ac yn byw yng Nghymru. Dyw hi ddim yn ofynnol i chi fod ag unrhyw brofiad gwleidyddol blaenorol na'ch bod wedi bod yn weithgar yn wleidyddol o'r blaen.

Yn eich cais, mae angen i chi ddweud wrthym beth fyddai'r cyfle hwn yn ei olygu i chi, a pham rydych chi'n credu bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn bwysig ac angen ei ddathlu o hyd yn 2020. Atebwch y cwestiynau hyn gan gynnwys unrhyw fanylion eraill sy'n ofynnol yn y ffurflen gais ar ein gwefan. Os ydych chi'n llwyddiannus, bydd Chwarae Teg yn cysylltu â chi i roi gwybod.

Cynhelir **LeadHerShip 2020 ddydd Mawrth 17 Mawrth** yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd, a byddwch angen bod yn rhydd i fod yng Nghaerdydd ar y diwrnod hwnnw er mwyn cymryd rhan.

Beth fydd y diwrnod yn ei gynnwys?

Bydd y diwrnod yn llawn gweithgareddau er mwyn rhoi darlun a dealltwriaeth well i chi o'r ffordd mae'r Cynulliad yn gweithio, cyfrifoldebau Aelod Cynulliad, a bydd cyfle i gyfarfod menywod ifanc ysbrydoledig eraill o bob cwr o Gymru.

Bydd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Cysgodi Aelodau Cynulliad a'u tîm
- Taith o'r Senedd
- Cyfle i siarad â Chomisiwn y Cynulliad am y ffordd mae'r Cynulliad yn gweithio a'r ffordd y gallwch gyfrannu
- Mynychu Cwestiynau'r Prif Weinidog
- Dadl ffug yn seiliedig ar 'Pam mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn dal i fod mor bwysig yn 2020?'

Mae hwn yn weithgaredd hwyliog er mwyn dangos sut mae Aelodau Cynulliad yn cyfrannu at ddadleuon y Cynulliad, ac yn gyfle i chi rannu eich safbwyntiau â grŵp o gyfranogwyr brwdfrydig a gweithgar. Gall fod yn unrhyw beth sy'n apelio atoch chi, felly mae croeso i gysylltu â ni, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rhan hwn o'r diwrnod.

Cymryd rhan a chadw mewn cysylltiad

Os oes gennych chi ddiddordeb cymryd rhan yn **LeadHerShip 2020**, llenwch y ffurflen gais sydd ar ein gwefan erbyn **Dydd Gwener 31ain Ionawr**.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rhaglen, neu os hoffech chi unrhyw wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu.

Cyswllt:

Polly Winn

Partner Polisi a Chyfathrebu



Polly.Winn@chwaraeteg.com



07825 965580